Annwyl Rieni a Cheidwaid,

Mae gwisg yn rhan bwysig o hunaniaeth ysgol. Mae'n atgyfnerthu pwy ydym ni fel cymuned ac yn helpu myfyrwyr i deimlo balchder yn eu hysgol. Mae'n sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael eu rhoi o dan unrhyw bwysau oherwydd y math o ddillad a brandiau y mae rhai disgyblion yn eu gwisgo a bod pob un yn cael ei drin yn gyfartal. Mae hefyd yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd ar ôl ysgol lle bydd yn rhaid i lawer wisgo'n smart ar gyfer gwaith.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol a'i pholisïau. Teimlwn fod cysondeb yn beth hanfodol i'n holl ddisgyblion felly gyda hyn mewn golwg, a allwn achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa o'n rheolau gwisg ysgol cyn y flwyddyn academaidd newydd. Sylwch ein bod wedi ystyried adborth disgyblion ac wedi addasu ein rheoliadau o ganlyniad.

Bwriad y llythyr hwn yw osgoi gwrthdaro diangen gyda disgyblion ac osgoi bod rhieni'n gwario arian ar eitemau drud sydd ddim yn cydymffurfio â'r rheolau gwisg ysgol. Rydym yn cael mwy a mwy o ddisgyblion yn dod i'r ysgol yn y wisg anghywir a hoffem osgoi hyn gan ei fod yn achosi gwrthdaro ac yn dechrau negyddol i'r diwrnod ysgol.

Esgidiau ysgol: esgidiau du plaen, esgidiau ymarfer (dim logo lliw) neu neu bŵts hyd y pigwrn.

Trowsus ysgol: trowsus du plaen - dylai'r rhain fod yn ddeunydd traddodiadol. Gwaherddir jîns, 'jeggings' a 'leggings'.

Sgert ysgol: sgert ddu, blaen gyda theits trwchus du. Ni chaniateir sgertiau 'mini'.

Hwdis: nid yw hwdis yn rhan o'r rheolau gwisg ysgol. Mewn ymateb i adborth rhieni, rydym bellach yn stocio siwmper ysgol a chardigan mwy trwm ac rydym hefyd yn gwerthu fflîs ysgol felly mae rhywbeth at ddant pawb. Rydym yn annog disgyblion i wisgo cotiau i'r ysgol yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, a gofynnwn fod y rhain yn ddu plaen, glas tywyll neu lwyd tywyll yn hytrach na lliwiau llachar. Os bydd yn rhaid i'ch plentyn gerdded unrhyw bellter yn y tywyllwch wrth fynd adref o'r ysgol, rydym yn argymell festiau 'high vis'' er mwyn sicrhau bod modurwyr yn gallu eu gweld.

Byddwn yn mynd ag unrhyw hwdis sy'n cael eu gwisgo ar gampws yr ysgol.

Gemwaith: Caniateir un fodrwy ac un pâr o glustdlysau 'studs' neu 'sleepers' ac oriawr yn ogystal â styden drwyn fach (nodwch na chaniateir modrwyau trwyn a gemwaith septwm nac unrhyw dyllu gweladwy arall). Rhaid tynnu pob gemwaith ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol. Ni fedrwn gymryd cyfrifoldeb am unrhyw emwaith sydd yn mynd ar goll. Oherwydd yr angen i dynnu gemwaith ar gyfer y gweithgareddau hyn (am resymau iechyd a diogelwch) gwnewch yn siŵr nad yw'ch plentyn yn cael unrhyw dyllu sydd angen cyfnod o wella (lle nad oes modd tynnu'r eitem allan) yn ystod y tymor.

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Os penderfynwch ganiatáu i'ch plentyn gael tyllu ychwanegol, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei dynnu cyn dod i'r ysgol. Bydd gofyn i ddisgyblion dynnu unrhyw eitemau o emwaith sy'n mynd yn groes i'r cod hwn a bydd yr eitemau'n cael eu cadw nes bod rhieni'n eu casglu o'r ysgol.

Colur a lliw gwallt: Bydd gofyn i ddisgyblion gael gwared ar unrhyw golur gormodol. Ni chaniateir farnais ewinedd ac ewinedd ffug rhy hir. Ni chaniateir lliwiau gwallt annaturiol (fel pinc a phorffor) na phatrymau yn y gwallt.

Mi fydd disgyblion sydd yn torri'r rheolau hyn yn cael sesiynau cinio dan oruchwyliaeth tan eu bod wedi cywiro'u gwisg..

Rydym yn falch iawn o'n hysgol ac o'n disgyblion ac yn credu bod safonau uchel o wisg, ymddygiad, bod â'r offer priodol a mynychu'n rheolaidd yn rhoi'r cyfle gorau oll i bob un o'n disgyblion ddysgu'n dda a chyflawni eu gorau glas. Diolch i chi i gyd yn fawr cyn eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth a ragwelir.

Yn gywir,

Jane Wyn.

(Pennaeth)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Dear Parents and Guardians,

Uniform is an important part of a school's identity. It reinforces who we are as a community and helps students to feel pride in their school. It ensures that students are not put under any pressure because of the type of clothes and designer brands that some pupils wear and that all are treated equally. It also helps prepare students for life after school where many will have to dress smartly for work.

Many thanks for your continued support of the school and its policies. We feel consistency is a critical thing to try and achieve for all of our pupils therefore with this in mind please could I take this opportunity to remind you of our key school uniform regulations ahead of the new academic year. Please note that we have taken on board pupil feedback and have adjusted our regulations as a result.

The intention of this letter is to avoid unnecessary confrontations with pupils and to avoid parents spending money on potentially expensive items which do not conform to the uniform regulations. We are having increasing incidences of pupils coming to school in the incorrect uniform and we would very much like to avoid this as it puts the school at odds with the pupil. This is not what any of us would wish for and is a negative start to the day for all concerned.

School shoes: plain black shoes, trainers (no coloured logo) or ankle boots.

School trouser: plain black trousers – these should be traditional material. Jeans, jeggings and leggings are strictly forbidden.

School skirt: plain black skirt with thick black tights. Mini skirts are not permitted.

Hoodies: hoodies are not part of the school uniform rules. In response to parent feedback we now stock a more hardwearing school jumper and cardigan and also sell a school fleece therefore there is something for everyone. We encourage pupils to wear coats to school particularly in the winter months, and ask that these are plain black, navy or dark grey rather than bright colours. If your child has to walk any distance in the dark when going home from school we recommend high-vis vests to ensure that they can be seen by passing motorists.

Hoodies worn on the school campus will be confiscated.

Jewellery: One ring and one pair of small, plain stud or sleeper size earrings and a watch are allowed as well as a small nose stud (please note that nose rings and septum jewellery will not be permitted nor will any other visible piercings). All jewellery must be removed for PE activities and is brought into school entirely at the pupil's own risk. Due to the need to physically remove jewellery for these activities (for health and safety reasons) please ensure that your child does not have any new ear/nose piercings which require healing time during the school term.

If you do decide to allow your child to have additional piercings please ensure that they are removed for school. Pupils will be required to remove any items of jewellery which contravenes this code and the items will be confiscated until parents collect them from school.

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Make up and hair colour: Pupils will be required to remove any excessive make up. Nail varnish and excessively long false nails are not allowed. Unnatural hair colours (such as pink and purple) are not permitted nor patterns in the hair.

Pupils not correctly attired for lessons will attend supervised lunch sessions until the issue has been fully resolved.

We are very proud of our school and of our pupils and believe that high standards of uniform, behaviour, being properly equipped and attending regularly give each and every one of our pupils the very best chance of learning well and achieving their very best. Thank you all very much in advance of your anticipated support and understanding.

Yours Faithfully,

Jane Wyn.

(Headteacher)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk